Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Ofal Awel-y-môr**

**Canolfan Ofal Awel-y-môr**
**Brynafon Road, Gorseinon**
**Abertawe**
**SA4 4YF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**15 Mawrth 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chanolfan Ofal Awel-y-môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Dywedodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn a'u bod yn hapus ac wedi ymgartrefu. Gwelsom enghreifftiau da o sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo adsefydlu a chynhwysiant. Roedd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir. Dywedodd gweithwyr proffesiynol allanol wrthym fod cyfathrebu â'r gwasanaeth, ac oddi wrtho, yn dda iawn. Dywedodd gweithwyr gofal a nyrsys wrthym eu bod yn derbyn lefel uchel o gymorth cyson gan reolwyr, y maent yn eu gwerthfawrogi ac yn eu parchu. Mae prosesau cynllunio gofal yn drylwyr ac yn fanwl. Mae lefelau staffio da ar draws gwahanol ddisgyblaethau yn y gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r datganiad o ddiben. Mae gweithlu cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n dda yn y gwasanaeth. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir. Mae yma dîm rheoli ymroddedig a'i nod yw darparu'r gofal a chanlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl. Mae gan y bobl fynediad i ystod eang o weithgareddau therapiwtig a chynhwysol. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo amgylchedd cyfeillgar a hamddenol ar gyfer y bobl a'r staff. Dywedodd y bobl wrthym fod yr amrywiaeth a'r dewis o fwyd yn dda iawn.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn cyflwr da ac wedi'u cyflwyno i safon uchel, gyda gwaith uwchraddio pellach ar y gweill. Mae gan y bobl fynediad i amrywiaeth o fannau cymunol therapiwtig, megis campfa, ystafell synhwyraidd, ardaloedd bwyta a lolfeydd. Mae gerddi sydd wedi'u cadw'n dda y gall y bobl gael mynediad diogel iddynt. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ar gyfer pob unigolyn. Rydym wedi gofyn i'r darparwr gymryd camau i newid y boeleri dŵr nwy presennol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Mae mesurau rheoli heintiau cadarn ar waith ac mae'r adeilad yn lân ac mewn trefn dda drwyddo draw.

## Llesiant

Mae arferion a phrosesau yn y gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i gynyddu eu lles corfforol ac emosiynol. Mae'r gwasanaeth cyfan yn rhoi pwyslais mawr ar adsefydlu a datblygu. Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ymroddedig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu canlyniadau da i'r bobl a gofal a chymorth o ansawdd uchel. Dywedodd y bobl a pherthnasau wrthym eu bod yn hynod hapus gyda'r gefnogaeth a ddarperir ac agwedd ofalgar y staff. Dywedodd perthnasau wrthym fod cyfathrebu â'r gwasanaeth, ac oddi wrtho, yn dda iawn. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol eithriadol rhwng y staff a'r bobl gydol yr arolygiad. Mae polisïau a gweithdrefnau yn rhoi arweiniad clir i'r staff er mwyn iddynt allu deall eu rôl a sut y dylent ddarparu gofal a chymorth. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn arddangos cysondeb â'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom siarad â thri gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r safle, ac roedd pob un ohonynt yn ganmoliaethus iawn o'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Dywedodd un wrthym, *"Maen nhw'n cyfathrebu'n glir a chyson gyda mi a phob amser yn ymdrechu i gyflawni'r gorau i'w preswylwyr."* Mae prosesau da ar waith ar gyfer asesu, monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant craidd ac arbenigol. Mae gweithwyr gofal yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd wedi'i chynllunio yn ogystal â chymorth a chyngor pan fo angen. Mae gan y bobl fynediad i ystod eang o weithgareddau strwythuredig a gweithgareddau wedi'u cynllunio yn y cartref. Ymgynghorir â'r bobl ynghylch eu hoffterau, eu dewisiadau a'u hanghenion cymorth.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod gweithwyr gofal, nyrsys a rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn ymwybodol o sut i leisio pryderon pe bai angen. Dangosodd yr holl weithwyr gofal y siaradwyd â nhw wybodaeth ac ymwybyddiaeth dda o weithdrefnau diogelu. Mae'r holl staff yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau cadarn iawn ar waith i sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl.

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu cadarn o fewn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli a'r unigolyn cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn iawn yn bodoli, gan gynnwys craffu allanol rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol. Cynhelir cyfarfodydd staff a phreswylwyr wedi'u cynllunio a chaiff camau gweithredu eu dogfennu'n glir fel y bo'n briodol. Mae safon y llety yn uchel iawn gydag ystafelloedd gwely en suite cyfforddus, glân a phersonol. Mae'r darparwr yn buddsoddi yn y gwasanaeth ac mae ganddo gynlluniau i gwblhau gwaith adnewyddu a gwaith pellach yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael y cyfle i gael mynediad i erddi allanol, dymunol sy'n cael eu cadw'n dda. Mae pob mynedfa ac allanfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Roedd y bobl yn canmol safon a dewis y bwyd a ddarperir ac yn nodi y caiff anghenion deietegol gwahanol eu diwallu. Mae'r gwasanaeth yn gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus ac wedi ymgartrefu ac mae eu hurddas a'u hannibyniaeth yn cael eu parchu a'u hybu. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a derbyniasom adborth gan bedair perthynas. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Ni fyddwn yn newid unrhyw beth – yn hapus iawn ac wedi setlo yma.”* Dywedodd perthynas ei bod yn *“hapus iawn gyda safon y gofal a’r cymorth a ddarperir”*, gydag un arall yn dweud bod *“y gofal a chymorth o safon uchel iawn”*. Gwelwyd rhyngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng gweithwyr gofal a'r bobl gydol yr arolygiad. Cysylltwyd â thri gweithiwr proffesiynol allanol, a dywedodd un ohonynt wrthym, *“Rwy’n falch o ddweud fy mod yn teimlo bob amser bod fy nghleientiaid mewn dwylo diogel gyda’r tîm yn Awel-y-môr.”* Derbyniasom holiaduron adborth gan berthnasau a staff a oedd yn hynod gadarnhaol ac yn canmol safon y gofal a’r cymorth a ddarperir.

Mae'r tîm staff gwybodus ac ymroddedig yn diwallu anghenion gofal a chymorth y bobl yn eithriadol o dda. Mae lefelau staffio'n gydnaws â’r datganiad o ddiben ac yn cynnwys rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), dirprwy reolwr penodedig, a thimau a arweinir gan nyrsys. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n galed i gynnal lefelau staffio er gwaethaf cyfnod anodd a heriol oherwydd y pandemig. Mae’r gweithwyr gofal a’r nyrs y siaradwyd â nhw yn dangos gwybodaeth dda am eu rolau, gyda llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Rydyn ni i gyd yn gweithio’n dda gyda’n gilydd fel tîm, mae pob adran yn gweithio mor galed i ddarparu gofal o safon.”* Mae gweithwyr gofal yn cadarnhau eu bod yn derbyn hyfforddiant priodol, ar-lein yn bennaf ar hyn o bryd, oherwydd y pandemig. Mae staff gofal wedi derbyn hyfforddiant arbenigol mewn meysydd fel cyfanrwydd y croen. Mae gan y bobl fynediad i ystod eang o weithgareddau ysgogol a phleserus wedi eu cynllunio. Mae dau gydlynydd gweithgareddau penodedig yn gweithio yn y cartref. Mae yma hefyd gydlynydd gweithgareddau synhwyraidd a ffisiotherapydd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi pwyslais mawr ar adsefydlu. Gwelsom y bobl yn cael mynediad i gampfa ac yn paratoi prydau gyda chymorth staff hefyd.

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl wedi'u dogfennu'n glir mewn cynllun cymorth manwl, trylwyr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae gan reolwyr, gweithwyr gofal a nyrsys wybodaeth dda am anghenion gofal parhaus y bobl. Roedd sampl o gynlluniau personol yr edrychwyd arnynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol am hoff bethau, casbethau, a sut yr hyrwyddir annibyniaeth. Gwelsom sampl o lyfrynnau ‘dod i’m hadnabod’, pob un yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, megis yr hyn sy’n bwysig i mi ac ati. Ceir gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal iechyd megis diabetes a gofal man pwyso ac asesiadau risg penodol. Mae gweithdrefnau cyn-derbyn trylwyr a chadarn yn bodoli, gan gynnwys asesu, trosglwyddo a rhestrau gwirio unigolion newydd. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd ac mae'r gwasanaeth wedi penodi 'llysgennad preswyl' i hyrwyddo cyfathrebu cadarnhaol.

Mae systemau i reoli meddyginiaeth yn ddiogel yn gadarn. Mae trefniadau diogel ar gyfer storio meddyginiaeth, gyda mynediad i staff awdurdodedig yn unig. Caiff tymheredd yr

ystafell ac oergell feddyginiaeth ei ddogfennu bob dydd. Mae systemau rheoli meddyginiaeth clir ar waith, gan gynnwys polisi meddyginiaeth ac archwiliadau rheolaidd. Mae'r holl staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi'u hyfforddi ac mae'r rheolwyr yn goruchwylio hyn yn dda. Cwblheir Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn briodol.

## Yr Amgylchedd

Gofelir am y bobl mewn amgylchedd lân, cartrefol a diogel. Mae hygyrchedd da o amgylch y cartref. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ardaloedd, gan gynnwys campfa arbenigol, ystafell synhwyraidd ac ardaloedd cegin cymunol gyda chyfleusterau wedi'u haddasu. Mae yna goridorau llydan ac ardaloedd cymunol mawr, sy'n ei gwneud yn haws i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i fynd o amgylch y cartref. Fodd bynnag, gwelsom fod rheiddiaduron trydan cludadwy wedi'u gosod mewn rhai coridorau. Fe'n hysbyswyd gan y rheolwr fod hyn oherwydd bod y boeleri nwy dŵr poeth (dwy ohonynt) wedi cael eu condemnio rai misoedd yn ôl. Roedd y gwasanaeth yn aros am gytundeb ar ddyfynbrisiau i newid y ddau foeler. Cawsom ein sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar y bobl ar hyn o bryd oherwydd bod tymheredd yr adeilad a'r dŵr yn cael ei fonitro yn rheolaidd. Er nad oes angen cymryd camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno'n dda ac maent yn lân ac wedi'u personoli ar gyfer yr unigolyn. Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref ac roeddent yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu hystafelloedd gwely. Gwelsom fod yr allanfa allanol a'r drysau mynediad i'r cartref yn ddiogel. Mae'r cartref mewn cyflwr da ac wedi ei addurno'n dda. Dywedwyd wrthym fod gwaith wedi'i gwblhau i adnewyddu tair ystafell gawod ar y llawr daear. Mae yna gynlluniau i newid y gorchuddion llawr, diweddaru ystafell ymolchi ac ymestyn lolfa ar gyfer y dyfodol, yn ogystal a newidiadau i leoliadau’r swyddfa. Mae yma ardaloedd awyr agored dymunol a hygyrch gyda drws awtomatig newydd wedi'i osod i ganiatáu mynediad haws i ardd gefn ble y mae diweddariadau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, gweithrediad y lifft, larymau tân, teclynnau codi a slingiau, a phrofion dyfeisiau cludadwy. Gwelsom ffeil gynhwysfawr a manwl yn cynnwys trosolwg o'r holl waith cynnal a chadw, damweiniau, rheoli heintiau, ac iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol ac yn unol â’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Mae yna ystafell golchi dillad fawr, a chaiff eitemau budr eu gwahanu oddi wrth eitemau glân, yn unol ag arferion rheoli heintiau da. Cwblheir gwiriadau larymau tân yn rheolaidd a chânt eu dogfennu yn unol â hynny.

Mae mesurau rheoli heintiau cadarn ar waith a gofynnwyd i ni ddangos tystiolaeth o brawf COVID-19 negyddol pan gyrhaeddasom. Mae cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ac mae gweithwyr gofal yn derbyn diweddariadau a hyfforddiant rheolaidd ar COVID-19 a

rheoli heintiau. Mae gweithdrefnau manylach ar waith mewn perthynas â glanhau dwfn er mwyn helpu i leihau effaith COVID-19. Mae gan y gwasanaeth system ar gyfer rheoli ymwelwyr ac asesu risgiau iddynt. Cawsom olwg ar y gegin a'r ardaloedd paratoi bwyd a chawsom wybod bod sgôr hylendid bwyd o bump ar waith ar hyn o bryd. Golyga hyn fod safonau uchel ar waith o ran storio, trin a hylendid bwyd. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol pobl, gan gynnwys gofynion arbenigol megis diabetes ac anawsterau llyncu. Dywedodd pawb y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau'r amrywiaeth a'r dewis o brydau a ddarperir.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae lefelau da o staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref. Cedwir cofnodion staff mewn cwpwrdd ffeilio dan glo mewn swyddfa. Mae cofnodion yn dangos bod staff gofal newydd yn mynd drwy gyfnod sefydlu trylwyr, sy'n gydnaws â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Mae ffeiliau staff yn cynnwys y wybodaeth recriwtio briodol a thystiolaeth o wiriadau. Gwnaethom siarad â thri gweithiwr gofal a nyrs. Dywedasant wrthym eu bod yn teimlo bod y tîm rheoli yn eu cefnogi'n arbennig o dda a'u bod yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *“Marciau uchaf, da iawn. Mae'r rheolwyr yn datrys problemau ar unwaith ac yn gwneud hynny yn dda.”* Dywedodd un arall, *“Mae’r rheolwr a’r dirprwy wedi bod yn wych ac yn gefnogol iawn. Maen nhw wedi bod yn galonogol iawn, ac roeddem i gyd yn teimlo ein bod yn cael cefnogaeth dda iawn. Maen nhw’n malio am y staff.”* Gwelsom gofnod goruchwylio staff hefyd sy'n dogfennu bod bron pob gweithiwr gofal a nyrs yn cael goruchwyliaeth ffurfiol, reolaidd. Mae gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant craidd ac arbenigol sy'n cyd-fynd â'r datganiad o ddiben. Mae gweithwyr gofal naill ai wedi cwblhau neu'n gweithio tuag at gymhwyster mewn gofal ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar y lefel briodol. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn gydnaws â'r disgwyliadau o ran y Gymraeg fel y'u diffinnir gan y 'Cynnig Rhagweithiol’. Mae'r arwyddion o gwmpas y cartref yn ddwyieithog ac mae yna nifer o staff sydd yn siarad Cymraeg yn ogystal â chyrsiau Cymraeg rheolaidd. Mae'r staff Cymraeg eu hiaith yn gwisgo laniardiau fel y gellir eu hadnabod. Gellir darparu'r holl ddogfennaeth yn Gymraeg hefyd.

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio ac yn llywodraethu'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn fanwl ac yn gadarn ac yn cwmpasu meysydd fel diogelu, cwynion a rheoli heintiau. Mae'r holl bolisïau yr edrychwyd arnynt yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn hapus gydag ansawdd y gofal a'r cymorth. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol cadarn iawn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd uchel ac yn ddiogel. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn fanwl gywir. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynllunio i’r preswylwyr a’r staff, yn ogystal â chyfarfodydd

trosglwyddo dyddiol i’r nyrsys a’r rheolwyr. Gwelsom adroddiadau ysgrifenedig yn cadarnhau hyn, a dywedodd y rheolwr wrthym fod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol yn hynod gefnogol ac mewn cysylltiad yn rheolaidd. Darllenasom adroddiadau megis adolygiadau ansawdd gofal sy'n ymdrin â meysydd fel ymgynghori â phobl, gwella ansawdd, diogelu a llety ac sydd â chamau gweithredu cysylltiedig clir.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Mae boeleri gwresogi nwy a dŵr poeth y gwasanaeth (dau ohonynt) wedi cael eu condemnio ers misoedd | Yn newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | lawer. Nid yw un boeler yn gweithio o gwbl. | |

**Dyddiad cyhoeddi** 09/05/2022